# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Hydref 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 95(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

(60 munud)

**NDM8090** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar ei Ymchwiliad: Adolygiad o'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mehefin 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Hydref 2022.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai

(60 munud)

**NDM8089** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 'Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai', a osodwyd ar 15 Mehefin 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Gorffennaf 2022.

## 7 Dadl Plaid Cymru – Y sector rhentu preifat

(60 munud)

**NDM8091** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod rhenti cynyddol yn ychwanegu at bwysau ar aelwydydd ledled Cymru wrth i'r argyfwng costau byw waethygu ymhellach.

2. Yn nodi bod gwerthoedd rhent cyfartalog Cymru wedi cynyddu i £926 y mis ym mis Mehefin 2022, sef cynnydd 15.1 y cant o'i gymharu â Mehefin 2021.

3. Yn nodi'r niferoedd cynyddol ar restrau aros am dai cymdeithasol, a diffyg stoc tai cymdeithasol.

4. Yn nodi bod diffyg darpariaeth o dai priodol a bod pobl yn wynebu digartrefedd pan fyddant yn cael eu troi allan.

5. Yn credu bod yn rhaid gwarchod tenantiaid ar frys y gaeaf hwn.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu mesurau brys i:

a) rhewi rhenti yn y sector rhentu preifat;

b) gosod moratoriwm ar droi pobl allan.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn credu bod Llywodraeth y DU yn methu â deall ei chyfrifoldebau ynghylch mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, ac yn galw ar i Lywodraeth y DU lynu wrth ei hymrwymiad i godi budd-daliadau yn unol â chwyddiant, gan gynnwys cynyddu cyfraddau'r lwfans tai lleol yng Nghymru.

Yn cydnabod:

a) bod tenantiaid cymdeithasol yn cael eu diogelu rhag codiadau rhent y gaeaf hwn;

b) o 1 Rhagfyr bydd y Ddeddf Rhentu Cartrefi yn cynnig rhagor o amddiffyniad i denantiaid rhag cael eu troi allan;

c) bod mwy na 25,000 o bobl sydd wedi cael eu hunain yn ddigartref wedi cael eu helpu i gael llety dros dro ers dechrau'r pandemig.

Yn croesawu:

a) y £6 miliwn ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol y gellir ei ddefnyddio i helpu i dalu ôl-ddyledion rhent neu i ddarparu gwarant rent;

b) y buddsoddiad o £65 miliwn mewn rhaglen gyfalaf ar gyfer llety trosiannol i gynyddu nifer y tai cymdeithasol, gan sicrhau bod gan ragor o bobl le y gellir ei alw'n gartref.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 6 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r symiau cynyddol y mae awdurdodau lleol yn eu gwario ar lety dros dro.

**Gwelliant 3** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r nifer cynyddol o hysbysiadau troi allan adran 21 sy'n cael eu cyflwyno gan landlordiaid preifat.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gydag awdurdodau lleol i wella'r broses o hyrwyddo'r cynllun benthyciadau cartref gwag er mwyn dychwelyd rhagor o dai gwag i fod yn gartrefi;

b) adolygu a chyflymu'r broses o wneud cais cynllunio er mwyn galluogi datblygwyr i gyrraedd targedau adeiladu tai;

c) adolygu pa gamau y gellir eu cymryd i drosi lleoedd gwag uwchben unedau manwerthu i fod yn dai fforddiadwy, wedi'u lleoli'n ganolog.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8092** Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

Lwfans cynhaliaeth addysg: rhaff achub yn yr argyfwng presennol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Hydref 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 05/10/2022 i'w hateb ar 12/10/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

1 OQ58521 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o leoedd ysgolion ar gael i ddisgyblion ar draws Pen-y-bont ar Ogwr?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OQ58543 **(w)**

Pa gefnogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei darparu i fyfyrwyr prifysgol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru wrth i'r argyfwng costau byw ddwysáu?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ58514 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau bod y system addysg yn rhoi sgiliau bywyd hanfodol i bobl ifanc?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

4 OQ58540 **(w)**

Beth yw disgwyliad Llywodraeth Cymru o ran categori iaith y ddwy ysgol arloesol newydd dan ei her ysgolion cynaliadwy?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

5 OQ58513 **(w)**

Pa gymorth y mae’r Llywodraeth yn ei roi i ysgolion Arfon a'r awdurdod lleol wrth iddynt gyflwyno’r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd?

**Joel James** *Canol De Cymru*

6 OQ58538 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith gwella yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, Caerdydd?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

7 OQ58512 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o ganlyniadau TGAU a safon uwch haf 2022?

8 **Alun Davies** *Blaenau Gwent*

OQ58537 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fentrau penodol Llywodraeth Cymru i leihau'r bwlch tlodi o ran cyrhaeddiad myfyrwyr yn dilyn y pandemig?

9 **Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

OQ58539 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau uniondeb canlyniadau TGAU a safon uwch?

10 **Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ58546 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith yr argyfwng costau byw ar nifer y rhai sy'n ymadael â'r ysgol sy'n parhau â'u haddysg drwy fynd i mewn i addysg bellach ac addysg uwch?

11 **Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

OQ58534 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael yr addysg orau bosibl?

12 **Ken Skates** *De Clwyd*

OQ58515 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi cynorthwywyr dysgu ysgolion?

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

1 **Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ58536 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau deintyddol cymunedol?

2 **James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

OQ58529 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gofal brys aciwt mewn ysbytai ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed?

3 **Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

OQ58531 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o adroddiad Niferoedd Nyrsio 2022 y Coleg Nyrsio Brenhinol mewn perthynas â Gogledd Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OQ58519 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella cyfathrebu gyda chleifion o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

5 OQ58528 **(e)**

Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau fod capasiti'r GIG yng Ngogledd Cymru yn ddigon i ateb y galw?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6 OQ58530 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â chanser y coluddyn?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ58526 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo e-sigaréts i ysmygwyr?

**Ken Skates** *De Clwyd*

8 OQ58516 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r rhaglen frechu COVID-19?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ58544 **(w)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o lefelau staffio'r GIG yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

10 OQ58542 **(e)**

Beth yw asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o effaith ei pholisïau ar wasanaethau gofal asthma?

**Joel James** *Canol De Cymru*

11 OQ58523 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno gwasanaethau ychwanegol mewn fferyllfeydd cymunedol?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

12 OQ58541 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lefelau staffio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda?